

# Bae Caswell: cyrchfan hygyrch

Bwyd a Thwristiaeth

## GWNEUD UN O DRAETHAU MWYAF POBLOGAIDD CYMRU HYD YN OED YN FWY CROESAWGAR

Mae Bae Caswell yn draeth baner las poblogaidd i dwristiaid ym Mhenrhyn Gŵyr sy'n denu teuluoedd, pobl ar eu gwyliau a syrffwyr.

Gan ei fod yn fan syrffio poblogaidd, mae'r traeth yn cael ei fynychu'n rheolaidd gan syrffwyr o bob gallu ac yn gartref i Surfability UK CIC – ysgol syrffio gwbl gynhwysol ac addasol gyntaf y DU. Gan ddefnyddio offer arbenigol, mae'r ysgol syrffio'n darparu profiadau syrffio ar gyfer amrywiaeth eang o bobl ag anableddau, gan gynnwys y rhai sy'n methu eistedd i fyny heb gymorth a defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Gydag ymchwil yn dangos yr amcangyfrifir bod 250,000 o ymwelwyr anabl wedi'u cyfyngu'n ddifrifol yn eu dewis o gyrchfannau a gweithgareddau ar draws y DU, penderfynodd Cyngor Abertawe ddatblygu'r traeth i fod yn fwy hygyrch, cynhwysol a chymwynasgar i'r rhai ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu.

Ar ôl trafod â defnyddwyr, penderfynodd Cyngor Abertawe, er mwyn creu cyrchfan wirioneddol hygyrch i ymwelwyr ag anableddau difrifol, fod angen cyfleuster newid newydd o ansawdd uchel ar y traeth ynghyd â theclyn codi, cawod a gwely newid yn ogystal â buddsoddiad mewn offer traeth arbenigol fel cadeiriau olwyn traeth arnofiol.

Bu'r cyngor yn gweithio gyda chwmni buddiannau cymunedol o Caswell, Surfability UK, a busnesau twristiaeth lleol eraill fel y Bramwood Accessible Holiday Home i gyflawni'r prosiect hwn. Dywed sylfaenydd Surfability, Ben Clifford fod y cyfleuster Changing Places yn gam pwysig i wneud traethau Cymru yn hygyrch i bawb.

> "Yr haf hwn mae Surfability wedi darparu gwersi syrffio i fwy na 40 o ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn ogystal ag eraill sydd angen llawer o gymorth gyda newid. Dylai mynediad i fannau awyr agored fod i bawb ac mae'r cyfleuster hwn yn gam pwysig tuag at wneud y traeth yn gynhwysol."
>
> Ben Clifford, Surfability UK

## MANTEISION Y CYLLID

Unwaith i Gyngor Abertawe sicrhau cyllid o £68,000 o gronfa Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS) Llywodraeth Cymru, drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, aethon nhw ati i gysylltu ag un o gwmnïau addasiadau anabledd mwyaf blaenllaw'r DU sy'n arbenigo mewn dylunio a gosod unedau modiwlaidd 'Changing Places'.






Mae'r cyfleusterau newydd yn cynnwys uned hunangynhwysol, ynghyd â theclyn codi, cawod a gwely newid, a dyma'r cyfleuster Changing Places cyntaf ym Mhenrhyn Gŵyr. Trwy TAIS, roedd Cyngor Abertawe hefyd yn gallu prynu Mobi-chairs, cadair olwyn traeth arnofiol o ansawdd uchel, a gynlluniwyd i fynd ar y traeth yn ogystal ag yn y dŵr. Bydd y cadeiriau hyn yn caniatáu i ymwelwyr anabl gael mynediad i'r dŵr yn hawdd ac yn rhad ac am ddim, er y bydd angen archebu'r cadeiriau ymlaen llaw trwy Gyngor Abertawe.

Bydd y prosiect yn gwneud gwahaniaeth i filoedd o drigolion ac ymwelwyr ag anableddau difrifol, a fydd yn gallu cael mynediad i'r dyfroedd ym Mae Caswell a'u mwynhau, a chael profiad urddasol wrth newid ac ymolchi mewn cyfleuster sy'n addas i'r diben ac sy'n cwrdd â'u hanghenion a'u gofynion cymhleth. Y cyfleuster hwn yw'r cyntaf o'i fath ar Benrhyn Gŵyr ac mae Cyngor Abertawe yn gobeithio y bydd y prosiect yn gwella profiad ymwelwyr ac yn gweithredu fel model i rannau eraill o Gymru ei efelychu.

Cyfanswm cost y prosiect oedd £85,000, gan gynnwys y £68,000 a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a £17,000 o arian cyfatebol gan Gyngor Abertawe.

## MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

Yn seiliedig ar lwyddiant y prosiect hwn, mae Cyngor Abertawe wedi gwneud cais am arian o Gronfa Y Pethau Pwysig ac wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol i osod dwy uned Changing Places arall mewn mannau allweddol i ymwelwyr ym Mhenrhyn Gŵyr, a ddylai fod yn weithredol erbyn haf 2023.

> **"Allwn ni ddim pwysleisio faint mae cael y Changing Place yn Caswell wedi gwneud ein bywydau gymaint yn haws ac yn llai o straen, rydyn ni nawr yn gallu aros am y diwrnod cyfan heb boeni sut rydyn ni'n mynd i newid Kai, sy'n dileu ein holl bryderon fel rhieni i oedolyn ag anghenion, mae'n un peth yn llai oddi ar ein rhestr hir. Hefyd i Kai sydd bellach bron yn 20 oed, mae'n rhoi ei urddas iddo gael mynediad i doiled a chyfleusterau newid fel pawb arall. Diolch."**
>
> Adborth a dderbyniwyd gan deuluoedd sy'n defnyddio'r Changing Places newydd

